**Atodiad 6**

## Diweddariad Cyffredinol ar y Rhaglen Waith a Sefyllfa Gyllidol Cludiant Addysg

### 1. Rhaglen Waith Cludiant Addysg

1.1 Yn ogystal ag adrodd ar yr ymgynghoriad Polisi Cludiant Addysg Drafft, gofynnodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd am ddiweddariad o gynnydd yn erbyn gofynion Rhaglen Waith Cludiant Addysg a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Rhagfyr 2024, ynghyd â diweddariad o'r sefyllfa gyllidol yn sgil gorwariant hanesyddol yn y maes cludiant addysg.

1.2 Mae'r tabl isod yn cyflwyno diweddariad cryno yn erbyn gofynion y rhaglen waith a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Rhagfyr 2024:

| Rhaglen Waith Cludiant Addysg | Cynnydd hyd at Rhagfyr 2024 | Cynnydd hyd at Mehefin 2026 |
|---|---|---|
| Diweddaru'r Polisi Cludiant Addysg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Mae drafft cychwynnol o'r Polisi Cludiant Addysg wedi ei lunio. Unwaith bydd y Polisi drafft wedi ei gwblhau, mae bwriad ymgynghori arno. Bydd y polisi hwn yn cyfarch y gofynion statudol yn yr un modd â'r polisi presennol. Ochr yn ochr a hynny, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lunio. | Mae drafft o'r Polisi Cludiant Addysg a'r Asesiadau Effaith cysylltiedig wedi eu llunio, ac ar 26 Ionawr derbyniwyd caniatâd y Cabinet i fynd allan i ymgynghori. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 6 wythnos rhwng 9 Chwefror a 20 Mawrth 2026, ac mae ystyriaeth wedi ei roi i'r holl sylwadau a dderbyniwyd. Mae bwriad mynd yn ôl i Gabinet i adrodd yn ôl ar yr ymgynghoriad a chyflwyno fersiwn derfynol o'r Polisi Cludiant Addysg cyn 1 Hydref 2026, er mwyn i'r polisi diwygiedig ddod i rym ar 1 Medi 2027. |
| Adolygu cytundebau cludiant addysg presennol er mwyn canfod arbedion effeithlonrwydd | Mae hwn yn waith parhaus, a cheir enghreifftiau isod o'r hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni | Mae hyn yn waith parhaus, adolygir y cytundebau cludiant oll yn dymhorol. Gyda lleihad mewn niferoedd y dysgwyr i'r dyfodol agos, rhagwelir y gwneir nifer o addasiadau I'r cytundebau, a lleihau capasiti'r llwybrau gan arwain at lleihad yn y costau yn dilyn hynny. |
| Adnabod cynllun peilot cludiant addysg y byddai modd ei | Cynllun peilot cychwynnol wedi ei weithredu'n rhannol y tymor hwn | Yn sgil blaenoriaethu cynllun peilot Ysgol Hafod Lon, nid ydym wedi gallu gweithredu cynllun peilot arall ar y cyd â Chanolfan Iaith yn ystod y cyfnod. |

| | | |
|---|---|---|
| weithredu ar y cyd â Chanolfan Iaith | | Er hynny, mae staff Canolfan Iaith Eifionydd wedi rhoi sesiynau gloywi iaith a gofal cwsmer i'r staff a gyflogir fel rhan o Gynllun Peilot Cludiant Ysgol Hafod Lon. |
| Adnabod cynllun peilot cludiant addysg y byddai modd ei weithredu ar y cyd ag ysgol arbennig | Trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gydag Ysgol Hafod Lon a chyfleoedd posib wedi eu hadnabod, ond gwaith pellach i'w gyflawni gan anelu i gychwyn peilot yn Nhymor y Gwanwyn 2025. | Cynllun peilot gyda bws mini trydan, gyrrwr a hebryngwr yn gyflogedig yn uniongyrchol gan y Cyngor yn weithredol ers Ionawr 2026. Adborth o'r peilot yn gadarnhaol iawn.<br><br>Anawsterau recriwtio wedi arwain at oedi gallu gweithredu ail gynllun peilot gyda'r ail fws mini yn Ysgol Hafod Lon, ond rydym yn parhau i geisio recriwtio ar hyn o bryd. |
| Ail-edrych ar drefniadau cludiant dysgwyr ADY | Y broses o ail-edrych ar yr amserlen ar gyfer adnabod anghenion cludiant dysgwyr ADY wedi cychwyn er sicrhau'r amodau gorau ar gyfer tendro'r ddarpariaeth er sicrhau gwerth am arian. | |
| Ystyried fforddiadwyedd Cludiant Addysg Ôl 16 yn sgil diddymu'r Tocyn Teithio Ôl-16 | Trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda Grŵp Llandrillo Menai. | • Cludiant Ôl-16 wedi ei gynnwys fel un o'r cynigion wrth ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft.<br>• Sgyrsiau wedi eu cynnal gyda Grwp Llandrillo Menai, ond nid oes bwriad gan y coleg i gyfrannu at gostau cludiant ol-16 ar hyn o bryd. |
| Cerbydau Trydan Adnewyddadwy | Cais grant wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cyngor ar gyfer cymorth ariannol i brynu 2 fws mini trydan, fyddai'n cynnig cyfleoedd posib i allu darparu cludiant addysg mewn ffordd amgen. | Cais grant ar gyfer 2 gerbyd trydan wedi bod yn llwyddiannus, a 2 fws mini trydan bellach ym mherchnogaeth y Cyngor i beilota darparu cludiant addysg mewn ffordd amgen. (Gweler cynllun peilot ysgol arbennig uchod). |

## 2. Sefyllfa Gyllidol Cludiant Addysg

2.1 O safbwynt sefyllfa gyllidol cludiant addysg, dengys y tabl isod y gyllideb ar gyfer cludiant addysg Gwynedd ers 2016/17, ynghyd â'r gwir wariant i gyfarch gofynion cludiant addysg dros yr un cyfnod:

| | Tacsis a trennau | | | Bysus | | | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb | Gwir | Gor/(tan) wariant | Cyllideb | Gwir | Gor/(tan) wariant | Cyllideb | Gwir | Gor/(tan) wariant |
| **2016/17** | 2,064,210 | 2,038,424 | **-25,786** | 2,554,540 | 2,582,690 | **28,150** | **4,618,750** | **4,621,113** | **2,363** |
| **2017/18** | 2,021,500 | 2,223,188 | **201,688** | 2,558,770 | 2,545,402 | **-13,368** | **4,580,270** | **4,768,590** | **188,320** |
| **2018/19** | 2,335,140 | 2,471,034 | **135,894** | 2,609,570 | 2,805,616 | **196,046** | **4,944,710** | **5,276,650** | **331,940** |
| **2019/20** | 2,342,610 | 2,516,348 | **173,738** | 2,821,950 | 2,884,973 | **63,023** | **5,164,560** | **5,401,321** | **236,761** |
| **2020/21*** | 2,323,850 | 1,969,468 | **-354,382** | 2,931,910 | 2,560,678 | **-371,232** | **5,255,760** | **4,530,145** | **-725,615** |
| **2021/22** | 2,615,480 | 2,790,864 | **175,384** | 3,149,730 | 3,092,720 | **-57,010** | **5,765,210** | **5,883,585** | **118,375** |
| **2022/23** | 2,841,050 | 3,147,025 | **305,975** | 3,279,460 | 3,521,664 | **242,204** | **6,120,510** | **6,668,690** | **548,180** |
| **2023/24** | 2,743,340 | 3,427,763 | **684,423** | 3,646,240 | 4,457,345 | **811,105** | **6,389,580** | **7,885,109** | **1,495,529** |
| **2024/25** | 3,907,460 | 3,661,661 | **-245,799** | 4,182,150 | 4,619,603 | **437,453** | **8,089,610** | **8,281,264** | **191,654** |
| **2025/26** | 3,553,671 | 3,552,096 | **-1,575** | 4,223,530 | 4,709,941 | **486,411** | **7,777,201** | **8,262,037** | **484,836** |
| **2026/27 - amcan** | 3,528,810 | 3,522,053 | **-6,758** | 4,886,236 | 4,886,236 | **0** | **8,415,046** | **8,408,289** | **-6,758** |

** blwyddyn eithiradol*

2.2 Mae'r gyllideb cludiant addysg a welir yn y tabl uchod wedi cynyddu £3.8m ers 2016/17 yn sgil chwyddiant a cheisiadau bidiau parhaol i'r Cyngor gan yr Adran Addysg er mwyn cyfarch y cynnydd mewn costau i ddarparu cludiant dros y cyfnod.

2.3 Yn 2023/24 bu i'r maes cludiant addysg orwario £1.5m, ar gyllideb o £6.4m. Y prif reswm am hyn oedd gweithredu proses o ail-dendro bysiau ysgolion yn ystod y flwyddyn, effaith yr economi yn gyffredinol, ynghyd â chostau uwch yn gysylltiedig â gofynion hygyrchedd ar ddarparwyr bysiau. Ymhellach mae pwysau cynyddol ar ofyn tacsis yn bennaf yn gysylltiedig â'r maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

2.4 Mewn ymateb i'r gorwariant, darparwyd cyllideb ychwanegol parhaol i'r Adran Addysg gan y Cyngor o £895k, a chyllideb un-tro o £895k ar gyfer 2024/25 yn unig. Ymhellach darparwyd cyllideb un-tro ar gyfer 2025/26 yn unig i ariannu'r gorwariant yn y flwyddyn yno.

2.5 Golyga hyn nad oedd gorwariant yn 2024/25 a 2025/26, gan roi cyfle i'r Adran Addysg adnabod cyfleoedd ar gyfer ceisio rhesymoli'r costau ynghlwm â darparu cludiant addysg. Ar yr un pryd, rhaid cydnabod fod gweithredu addasiadau i gontractau cludiant a newid y modd yr ydym yn darparu cludiant addysg yn fater a gymer peth amser i'w weithredu a gweld ei effaith yn llawn. Penodwyd Rheolwr Cludiant Addysg ym mis Ebrill 2024 er sicrhau adnodd penodol i allu ymateb i'r sefyllfa, ac yn yr un cyfnod mae'r maes cludiant addysg yn destun Adolygiad Strategol ac mae rhaglen waith wedi ei llunio i ganolbwyntio ar greu datrysiadau ymarferol i'r heriau a wynebir yn y maes cludiant addysg.

2.6 Yn seiliedig ar ddata contractau Medi 2025, rhagwelwyd cost o ddarparu cludiant addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 yn £8.4m. Gellir rhannu'r gost i 2 brif categori, sef gwariant ar gontractau bysus o £4.9m a gwariant ar gontractau tacsis o £3.5m. Ar sail y costau hyn, cyflwynwyd fid i ariannu'r gorwariant gontractau bysus cyfwerth a £664,000 ar gyfer 2026/27, sy'n cynnwys costau ychwanegol sydd y tu allan i reolaeth yr Adran, a cyfleon cyfyngedig i weithredu arbedion ar y pennawd. Yn sgil cynlluniau a weithredir i arbed arian, ni gyflwynwyd fid contractau tacsis gan ddisgwyl i'r pennawd gadw oddi fewn ei gyllideb yn 2026/27.

2.7 Bydd ymdrechion yn parhau i adnabod cyfleon arbed arian / cadw costau o fewn rheolaeth lle'n bosib, gan gofio bod pwysau sylweddol yn y maes yn parhau yn unol a'r hyn nodir yn 3.9 uchod.